

2015 RHIF 22

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

CYFARWYDDIADAU GWAED A THRAWSBLANIADAU'R GIG (NHS BLOOD
AND TRANSPLANT) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 2) 2015

Gwnaed

13 Gorffennaf 2015

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 23(1), 24(1), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(a) drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn—

Cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym fel a ganlyn—

(a) daw'r cyfarwyddyd hwn a chyfarwyddyd 3 i rym ar 13 Gorffennaf 2015; a

(b) daw cyfarwyddyd 2 i rym ar 2 Mai 2016.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr “GTGIG” (“*NHSBT*”) yw'r Awdurdod Iechyd Arbennig a elwir Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant)(b); ac

ystyr “y Prif Gyfarwyddiadau” (“*the Principal Directions*”) yw Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005(c).

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r Prif Gyfarwyddiadau ac yn darparu trefniadau trosiannol o ran paratoi ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gwaed yn y Gogledd o GTGIG i Ymddiriedolaeth GIG Felindre a hynny'n effeithiol o 2 Mai 2016.

(a) 2006 p.,42.

(b) Sefydlwyd gan Orchymyn Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Sefydliad a Chyfansoddiad) 2005, O.S. 2005/2529.

(c) fel y'u diwygiwyd gan: Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2005; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2010; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2010; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2011; a Chyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2015.

Diwygio cyfarwyddyd 2 o'r Prif Gyfarwyddiadau

2. Yn lle cyfarwyddyd 2 o'r Prif Gyfarwyddiadau rhodder—

“2.—(1) Yn y paragraff hwn, ystyr “celloedd cenedlyddol gwaedfagol” yw celloedd cenedlyddol gwaedfagol o fêr esgyrn neu waed drwy afferesis.


(2) Er mwyn hybu neu sicrhau'r cyflenwad effeithiol o gelloedd cenedlyddol gwaedfagol at ddibenion y gwasanaeth iechyd, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo GTGIG mewn perthynas â bwrdeistrefi sirol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam i reoli'r gofrestr fel y mae ar 2 Mai 2016 o roddwyr celloedd cenedlyddol gwaedfagol ac unrhyw wasanaethau cysylltiedig sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi triniaeth i gleifion.”.

Trefniadau trosiannol

3.—(1) Er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau gwaed y Gogledd o GTGIG i Ymddiriedolaeth GIG Felindre a hynny'n effeithiol o 2 Mai 2016—

(2) Yn y cyfnod hyd at 2 Mai 2017, cymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn cydweithredu ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre at ddibenion paratodau Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer ei swyddogaethau, ac arfer y swyddogaethau hynny, o dan erthygl 3(2)(b) o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(a) i ddarparu gwasanaethau gwaed ar sail Cymru gyfan;

(3) Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn cynnwys darparu unrhyw wybodaeth y mae'n rhesymol angenrheidiol i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ei chael. Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod datgeliad yn cael ei wneud yn groes i unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol nac yn awdurdodi datgeliad o'r fath.



Dr Chris Jones
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

7 Gorffennaf 2015

(a) O.S. 1993/2838. Mae erthygl 3(2)(b) yn darparu: “to own and manage Welsh Blood Service Headquarters, Ely Valley Road, Talbot Green, Pontyclun CF72 9WB and associated premises, and there to provide and manage services relating to the collection, screening and processing of blood and its constituents and to the preparation and supply of blood, plasma and other blood products”.